# Ein gweledigaeth a'n bwriadau ar gyfer eiriolaeth i oedolion



2019 - 2024

Strategaeth gomisiynu a gydgynhyrchwyd ar gyfer eiriolaeth i oedolion yng Ngwent.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

## Gweithio mewn Partneriaeth

# Cynnwys

*Sylwer bod geirfa o dermau a byrfoddau yn Atodiad A.*


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 01] | Rhagair - Ein gweledigaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion yng Ngwent | [ 04 |
| 02] | Crynodeb gweithredol | [ 06 |
| 03] | Cefndir | [ 08 |
| 04] | Y sefyllfa bresennol | [ 11 |
| 05] | Ennyn ymlyniad rhanddeiliaid | [ 13 |
| 06] | Blaenoriaeth 1: Cydgynhyrchu | [ 14 |
| 07] | Blaenoriaeth 2: Dylunio'r gwasanaeth, egwyddorion a deilliannau i wasanaethau eiriolaeth | [ 15 |
| 08] | Blaenoriaeth 3: Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth | [ 18 |
| 09] | Blaenoriaeth 4: Eiriolaeth yn y GIG | [ 20 |
| 10] | Prosiect treialu Mynediad at Eiriolaeth Gwent | [ 22 |
| 11] | Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud | [ 23 |
| 12] | Cydnabyddiaeth | [ 27 |
| 13] | Cyfeiriadau a dolenni | [ 28 |
| 14] | Atodiadau | |
| | A] Geirfa | [ 29 |
| | B] Egwyddorion a deilliannau eiriolaeth | [ 31 |
| | C] Pryderon pobl ag Anableddau Dysgu | [ 32 |
| | D] Deunyddiau hyrwyddo Mynediad at Eiriolaeth Gwent | [ 33 |

# 01 Rhagair

## Ein gweledigaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion yng Ngwent.

**Rwy'n falch iawn o gyflwyno Ein Gweledigaeth a Bwriadau ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion yng Ngwent, 2019-24. Cydgynhyrchwyd y strategaeth gomisiynu dros ddwy flynedd gyda chyfraniad gweithredol amrywiaeth mawr o randdeiliaid. Ei diben yw arwain caffael gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer oedolion yn y dyfodol ar draws y rhanbarth. Ynghyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi mabwysiadu'r strategaeth ac wedi ymrwymo i gweithredu'r pedwar prif faes blaenoriaeth a nodwyd ac a amlinellir yn y ddogfen hon.**

### Beth ydym ni'n ei feddwl wrth sôn am eiriolaeth

Mae gan eiriolaeth rôl bwysig wrth sicrhau bod pobl sydd angen Gwasanaethau Cymdeithasol a chymorth yn gallu dynodi a chyflawni eu deilliannau llesiant. Dyluniwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[1] i'r diben hwn. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y dylai cymorth gael ei adeiladu o gwmpas yr hyn sydd o bwys i bobl.

Rhaid i bobl gael llais a rheolaeth ar bob cam o'u hymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae eiriolaeth yn un ffordd o gefnogi pobl i fynegi beth y maent ei eisiau o gymorth a gwasanaethau, ac o ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Cod Ymarfer Rhan 10 Llywodraeth Cymru (Eiriolaeth)[2] yn gosod rhai gofynion ar Awdurdodau Lleol yr ydym yn anelu at eu cyrraedd a mynd tu hwnt iddynt pan fydd yn bosibl.

Rydym yn ystyried bod eiriolaeth yn cyd-fynd â rôl gweithwyr cymdeithasol, sydd hefyd yn darparu math o 'eiriolaeth ffurfiol'. Er bod angen eiriolwyr annibynnol weithiau i gymryd safle gwrthwynebus ar ran y cleientiaid, y rhan fwyaf o'r amser maent yn galluogi unigolion i fod yn glir am yr hyn sydd arnynt ei eisiau, ac yn eu cefnogi i fynegi eu barn a theimlo bod ganddynt reolaeth.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gwahaniaeth sylfaenol rhwng y rolau hyn. Tra bod gofyn cyfreithiol i Wasanaethau Cymdeithasol weithredu'r hyn y maent yn ei ystyried sydd er budd yr unigolyn, mae eiriolwyr yn bennaf yn ymwneud â chefnogi pobl i fynegi eu barn, dymuniadau a theimladau. Annibyniaeth yw'r allwedd i rôl eiriolaeth.

### Mathau o eiriolaeth

Yn gyffredinol, nid yw eiriolaeth yn cael ei ystyried yn wasanaeth argyfwng, er, mewn rhai amgylchiadau gall fod o help i atal sefyllfaoedd unigol rhag gwaethygu yn argyfwng. Mae llawer o ffyrdd y gall eiriolaeth fod o gymorth wrth gefnogi pobl i gael llais a rheolaeth.

Er mwyn bodloni'r anghenion gwahanol hyn, mae eiriolaeth yn dod ar ffurfiau gwahanol, yn amrywio o eiriolaeth anffurfiol a roddir gan Ofalwyr, teulu a ffrindiau ar un pen i'r raddfa, i eiriolaeth broffesiynol statudol annibynnol ar y pen arall. Mae pob ffurf ar eiriolaeth yn ceisio cefnogi unigolion i eiriol drostynt eu hunain pryd bynnag y bydd yn bosibl.

Rydym yn gwerthfawrogi rôl grwpiau eiriolaeth cymheiriaid a dinasyddion sy'n cefnogi pobl ag Anableddau Dysgu i godi llais dros eu hawliau yn neilltuol. Rydym hefyd yn cydnabod bod gan grwpiau eraill anghenion arbenigol o ran eiriolaeth, fel y defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig Byddar y gall eu pryderon ddeillio o rwystrau diwylliannol ac ieithyddol.

Yn yr un modd mae gan Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol rôl allweddol yn diogelu oedolion mewn risg sydd wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae sicrhau bob pobl yn y sefyllfaoedd hyn yn gallu cael mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ganolog i alluogi pobl i gael llais a rheolaeth ar amser pan allant fod yn fregus iawn.

## Nodau a rennir

Prif nod y strategaeth gomisiynu yw sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at y ffurfiau o eiriolaeth sydd fwyaf addas iddynt, bod yr holl wasanaethau eiriolaeth o safon uchel, a'u bod yn rhoi cymorth i gleientiaid yn effeithiol. Nod arall allweddol bwysig yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r cyhoedd yn ehangach.

Yn ystod yr ymgynghoriad daeth yn glir y byddai "cynnig gweithredol" o ran eiriolaeth i oedolion, yn debyg i'r un ar gyfer eiriolaeth plant a phobl ifanc, yn cael ei groesawu. Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddiffinio beth allai hyn fod a byddwn yn cyd-gynhyrchu ateb gyda phartneriaid wrth i ni symud i'r cam caffael.

## Cyllid

Rydym yn uchelgeisiol iawn am ddatblygu eiriolaeth yng Ngwent, er bod hyn yn creu rhai sialensiau sylweddol, gan gynnwys cyllid. Yn hytrach na bod yn ymarfer torri costau, mae'r strategaeth gomisiynu hon yn ddull o sicrhau bod ein hadnoddau ar y cyd yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol.

Fel cam cyntaf rydym wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Integredig[3] (ICF) ar gyfer cynllun treialu dwy flynedd y mae'r rhanddeiliaid wedi ei alw yn Fynediad at Eiriolaeth Gwent[4]. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu un pwynt cyswllt i gael gwasanaethau eiriolaeth yn y rhanbarth, rhedeg ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol, a chynyddu gallu darparwyr yn y sector eiriolaeth. Ym Mhennod 11 nodir yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i ddatblygu eiriolaeth yn y rhanbarth.

## Cydgynhyrchu

Rydym yn rhoi gwerth mawr ar sicrhau bod dinasyddion Gwent yn gallu cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth priodol a byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill i gydgynhyrchu atebion sy'n gweithio i unigolion.Yn wir, gall y cydgynhyrchu sydd wedi arwain at y strategaeth hon fod yr un mor bwysig â'r strategaeth ei hun. Mae wedi bod, ac mae'n parhau i fod, yn brofiad cyfoethog i bawb a gymerodd ran sydd eisoes yn gweld gwelliannau o ran rhannu gwybodaeth i gefnogi dinasyddion.

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar yn neilltuol i'r dinasyddion a chleientiaid gwasanaethau eiriolaeth, darparwyr eiriolaeth, a rhanddeiliaid eraill sydd wedi helpu i siapio'r strategaeth gomisiynu hon. Edrychwn ymlaen at weld y cydgynhyrchu yn parhau wrth i ni weithio i weithredu'r strategaeth.

***Alyson Hoskins** - Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 14 Mehefin 2019*

Mae sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn gallu sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn hanfodol bwysig os ydym ni am drawsnewid a gwella ein Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn gwybod y gall y system ofal fod yn orgymhleth ac nad yw'n hawdd bob amser i ddinasyddion ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth all eu helpu nhw orau a'u defnyddio.

Mae gan eiriolaeth ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed. Rydym yn cydnabod bod hwn yn wasanaeth pwysig a bod angen iddo fod ar gael yn gyfartal, pan a lle y bydd ei angen. Rhaid i hyn gael ei ddeall ar draws Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac mae'n neges allweddol i'n holl staff.

Rydym hefyd yn cydnabod bod eiriolaeth yn sgil arbenigol - neu yn hytrach yn set o sgiliau - ynddo ei hun, ac rydym am sicrhau bod gan ranbarth Gwent wasanaethau eiriolaeth o safon uchel i gefnogi ein dinasyddion. A hyn mewn cof rwy'n falch bod dull cydgynhyrchiol - yn cynnwys dinasyddion, darparwyr a chomisiynwyr - wedi cael ei ddefnyddio i gynhyrchu un strategaeth gomisiynu eiriolaeth i oedolion ar gyfer Gwent. Dyma'r ffordd y dylem ni, fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, fod yn gweithio ac mae'n gosod meincnod ar gyfer gwaith integredig arall y mae angen i ni ei wneud.

Fel ffordd ymarferol o gefnogi gweithio cydgynhrychiol rwyf yn falch ein bod ni fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn un o noddwyr cynhadledd flynyddol Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru 2019. Edrychaf ymlaen at ddatblygu gweithio cydgynhyrchiol pellach yn y rhanbarth wrth i ni barhau i symud yr agenda drawsnewid yn ei blaen.

***Phil Robson** - Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, 14 Mehefin 2019*

# 02 Crynodeb Gweithredol

**Cydgynhyrchwyd Ein Gweledigaeth a Bwriadau ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion yng Ngwent, 2019-24 gan ddinasyddion, darparwyr a chomisiynwyr. Mae'n sefydlu gweledigaeth ar gyfer datblygu dull rhanbarthol o ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ac yn nodi ein bwriadau wrth symud hyn ymlaen.**

**Mae trefniadau eraill eisoes yn eu lle ar gyfer comisiynu eiriolaeth i blant a phobl ifanc trwy fframwaith rhanbarthol yn gysylltiedig â deilliannau cenedlaethol. Dylai'r strategaeth gael ei hystyried yn 'ddogfen fyw' sydd yn debygol o esblygu trwy barhau i gydgynhyrchu.**

## What we mean by advocacy

Mae Ein Gweledigaeth yn ceisio cyrraedd y gofynion a nodir yng Nghod Ymarfer Rhan 10 Llywodraeth Cymru (Eiriolaeth) a mynd tu hwnt iddynt pan fydd yn bosibl. Mae'n cymryd dull cytbwys o ddarparu gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i rai pobl yn y system Gwasanaethau Cymdeithasol, gan hefyd gefnogi datblygu'r sector eiriolaeth ehangach.

**Arweiniodd ymgysylltu ac ymgynghori eang â rhanddeiliaid at gyflwyno cais llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Integredig am brosiect treialu 2 flynedd rhwng 2019 a 2021. Dan yr enw Mynediad at Eiriolaeth Gwent bydd yn:**

- Sefydlu un man cyswllt annibynnol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod unigolion yn derbyn y ffurf fwyaf addas o eiriolaeth.
- Rhedeg ymgyrch amlwg i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- Cynyddu gallu'r sector eiriolaeth i reoli'r galw cynyddol.


Bydd data o'r cynllun treialu yn galluogi comisiynwyr i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol yn fwy cywir.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddiffinio cynnig gweithredol o ran eiriolaeth i oedolion. Am resymau ymarferol mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei gyfyngu i eiriolaeth broffesiynol annibynnol statudol ar y dechrau, ond gall hefyd fod yn fodd o ymwreiddio ystyriaeth o'r angen am eiriolaeth yn fwy cadarn yn y broses asesu ar gyfer pob unigolyn.

**Mae'r Rhagair i'r ddogfen hon yn sefydlu ein gweledigaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion ac mae Pennod 11 yn nodi beth yr ydym yn bwriadu ei wneud i gyflawni'r weledigaeth. I grynhoi, Ein Gweledigaeth yw:**

- Sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal a rhwydd at y ffurfiau o eiriolaeth sydd fwyaf addas iddynt.
- Adeiladu ar gryfderau a phroffesiynoldeb y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol, gan sicrhau bod gwasanaethau yn hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hir.
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau eiriolaeth i oedolion o safon uchel, a'u bod yn rhoi cymorth i gleientiaid yn effeithiol.

Bu'r pump Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio gyda'i gilydd gyda phartneriaid i ddatblygu'r dull rhanbarthol hwn o ymdrin ag eiriolaeth i oedolion. Fodd bynnag, wrth gydnabod y gwahaniaethau demograffig, daearyddol a'r gwahaniaeth yn y dulliau o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob ardal, nid ydym yn bwriadu i'r pum Awdurdod Lleol i gyd gomisiynu eiriolaeth i oedolion yn union yr un ffordd. Yn hytrach, rydym wedi cytuno i fabwysiadu set o egwyddorion cyffredin i fod yn sail i gomisiynu eiriolaeth yn y dyfodol. Wedi eu tynnu o God Ymarfer Rhan 10 a'r Nod Ansawdd Perfformiad Eiriolaeth[5], mae'r egwyddorion hyn yn cael eu nodi yn Atodiad 2.




© Stacey Harding 2019

# 03 Cefndir - Cyd-destun cenedlaethol

**Yn 2015 cyhoeddwyd Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) ('y Cod') gan Lywodraeth Cymru dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf').**

## Mae'r Cod yn mabwysiadu diffiniad a dderbynnir yn eang o eiriolaeth:

***"Advocacy is taking action to help people say what they want, secure their rights, represent their interests and obtain services they need. Advocates and advocacy schemes work in partnership with the people they support and take their side. Advocacy promotes social inclusion, equality and social justice."*** *(Action for Advocacy, 2002).*

Mae'r Cod yn ymdrin ag eiriolaeth i oedolion ac i blant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[6] (RISCA) yn berthnasol i eiriolaeth plant a phobl ifanc yn unig, ond mae'n debygol o gael ei hymestyn i gynnwys eiriolaeth oedolion yn y dyfodol. Mae'r strategaeth hon yn trafod eiriolaeth i oedolion yn unig, ond dylai comisiynwyr sicrhau bod trefniadau digonol ar gyfer eiriolaeth yn eu lle ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn sydd yn trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Mae Pennod 8 y Cod yn disgrifio sawl ffurf wahanol o eiriolaeth, gan gynnwys 'eiriolaeth ffurfiol' fel rhan o rôl gweithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r graffig isod yn dangos bod y ffurfiau gwahanol hyn o eiriolaeth yn ymdrin â sbectrwm o ymyrraeth gynnar ac atal i anghenion ar lefel uchel ac ymyrryd mewn argyfwng. Mae pob ffurf ar eiriolaeth yn rhoi cymorth i bobl eiriol drostynt eu hunain pryd bynnag y bydd yn bosibl.




Graffig 1: Y sbectrwm o wasanaethau eiriolaeth

Cyfeirir at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol hefyd fel "IPA statudol" neu "IPA dan y Ddeddf" (h.y. ar gyfer dibenion yn ymwneud â gofal a chymorth). Mae hyn yn gwahaniaethu rhyngddo ag IPA anstatudol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ystod llawer ehangach o faterion.

**Mae paragraff 7 o God Ymarfer Rhan 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol:**

**A** ] Sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth eiriolaeth ar gael fel bod unigolion yn gallu ymgysylltu a chyfranogi pan fydd Awdurdodau Lleol yn arfer dyletswyddau statudol mewn perthynas â nhw, a

**B** ] Threfnu bod eiriolwr proffesiynol annibynnol yn hwyluso cyfraniad unigolion mewn amgylchiadau penodol.

**Diffinnir yr 'amgylchiadau penodol' hyn ym mharagraff 47 o'r Cod:**

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer person nad yw'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu heb gael cymorth gan unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.

Disgrifir y 'rhwystrau' ym mhennod 12 o'r Cod. Mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau o ran deall, cofio, defnyddio neu bwyso a mesur gwybodaeth, neu trwy gyfleu barn, dymuniadau a theimladau. Os cyrhaeddir y farn mewn partneriaeth â'r unigolyn nad oes unigolyn priodol neu fath arall o eiriolaeth ar gael, rhaid iddynt gael eu cyfeirio at wasanaeth IPA.

**Disgrifir rôl yr unigolyn priodol ym mhennod 13 y Cod ac mae'n cynnwys hwyluso ymgysylltiad a chyfranogiad llawn rhywun wrth bennu ei ddeilliannau llesiant. Ni all unigolyn fod yn unigolyn priodol os yw:**

- Yn rhywun nad yw'r unigolyn am gael cymorth ganddo.
- Yn rhywun sy'n annhebygol o allu, neu fod ar gael i roi cymorth digonol i gyfranogiad yr unigolyn, neu
- Rywun sydd wedi'i enwi mewn ymchwiliad i gamdriniaeth neu esgeulustod neu y mae ei weithredoedd wedi dylanwadu ar benderfyniad Awdurdod Lleol i ystyried camau gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion neu weithgaredd amddiffyn o ran plentyn.

## Sicrhau bod Lleisiau yn Cael eu Clywed

**Gwnaeth adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru' ar eiriolaeth Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn (Mai 2018)[7] rai argymhellion pwysig, gan gynnwys:**

- Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sicrhau bod eu gweithluoedd yn ddigon medrus ac wedi eu hyfforddi fel eu bod yn wybodus am eiriolaeth annibynnol a manteision ei ddefnyddio, a dylai hyn gynnwys digon o wybodaeth a gallu am hawliau cyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol statudol. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd graffu ar effeithiolrwydd gallu eu gweithlu yng nghyswllt eiriolaeth annibynnol.
- Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd wella'r cynnig o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi mandad i 'Gynnig Gweithredol' i gynnwys pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

## Cyd-destun rhanbarthol

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i "asesu fel rhan o'u Hasesiad Anghenion Poblogaeth yr ystod o wasanaethau eiriolaeth yn eu hardal a sicrhau a hyrwyddo eu hargaeledd fel rhan o'u portffolio o wasanaethau ataliol."

**Nododd Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent[8], a gyhoeddwyd yn 2017:**

Trwy'r Cynllun Ardal ar y cyd byddwn yn dwyn partneriaid trydydd sector a thimau comisiynu at ei gilydd i fapio'r gwasanaethau eiriolaeth yn llawn a dynodi arfer da a bylchau yn y ddarpariaeth. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol ac yn gweithio'n glos gyda'r sefydliadau ymbarél trydydd sector i ddynodi atebion.

# 03 Cefndir - Cyd-destun cenedlaethol



**Roedd Cynllun Ardal Gwent[9] a gyhoeddwyd yn 2018, yn ymrwymo i gyflawni rhaglen eiriolaeth ranbarthol i:**

- Gysoni'r ddarpariaeth eiriolaeth yn ôl blaenoriaethau a ddynodwyd ar draws yr asiantaethau partner.
- Weithredu dull cydweithredol o ddarparu eiriolaeth gyda phartneriaid trydydd sector yn arbennig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.

**Roedd y rhaglen i gynnwys:**

- Datblygu cynllun strategol ar gyfer comisiynu eiriolaeth yn y rhanbarth yn 2019-2024, yn cynnwys IPA a ffurfiau mwy eang o eiriolaeth.

## Cwmpas y strategaeth

Cytunodd y partneriaid mai nod cyffredinol y strategaeth gomisiynu yw datblygu dull rhanbarthol o ymdrin ag eiriolaeth i oedolion yn 2019-24 sy'n bodloni gofynion IPA statudol a ffurfiau ehangach o eiriolaeth.

Mae'r gofyn i ddarparu IPA statudol yn creu cyfle posibl ar gyfer cyd-gomisiynu un gwasanaeth i gynnig y ffurf ddrytach hon o eiriolaeth lefel uchel ar sail gyfartal ar draws y rhanbarth.

Mae pob Awdurdod Lleol yn defnyddio dull gwahanol o ddarparu ffurfiau ehangach o eiriolaeth trwy eu strategaethau lleol ar gyfer datblygu gwasanaethau ataliol yn y gymuned, gan gynnwys trwy rwydweithiau llesiant integredig[10].

Bydd yr egwyddorion a deilliannau eiriolaeth a nodir yn Atodiad 2 yn cael eu defnyddio gan gomisiynwyr i fod yn sail i ddatblygu strategaeth atal pob Awdurdod Lleol ymhellach, ac i gefnogi datblygu gwasanaethau eiriolaeth lleol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Gwent, ynghyd â Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth Gwent a'r Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion hefyd â rôl bwysig yn y cydgynhyrchu sy'n dal i ddigwydd a'r datblygu parhaus ar eiriolaeth ar draws y rhanbarth.

# Y sefyllfa bresennol



**Yn gynnar yn 2016 ymatebodd Cyngor Dinas Casnewydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) i ofynion Cod Ymarfer Rhan 10 trwy gaffael contractau i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol statudol. Mae contract ABUHB yn cynnwys pobl â phroblemau Iechyd Meddwl a'u Gofalwyr, tra bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi canolbwyntio ar bob grŵp arall. Mae'r ddau gontract yn cael eu cyflawni gan Ganolfan Byw'n Annibynnol Dewis[11] sy'n gweithredu contract Casnewydd fel rhan o gonsortiwm dan arweiniad y darparwr cymorth tai Reach.**

Dyluniwyd contract Casnewydd fel contract fframwaith yr oedd gan Awdurdodau Lleol eraill Gwent ddewis i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf wedi parhau i gomisiynu eiriolaeth ar wahân yn y cyfamser i'w galluogi i ystyried eu dull trwy'r system gyfan o ymdrin â gwasanaethau ataliol.


Mae rhai rhanddeiliaid, yn arbennig rhai o'r darparwyr eiriolaeth arbenigol, llai, a fu'n aflwyddiannus yn y broses dendro gystadleuol, wedi mynegi pryder am effaith y gostyngiad yn eu cyllid ar eu gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau. Er bod hwn yn bryder dilys, nid bwriad y strategaeth hon yw lleihau cwmpas ac ystod y gwasanaethau sy'n bodoli'n barod, ond yn hytrach i annog gweithio trwy'r sector cyfan a dull cydweithredol i fodloni'r ystod eang o anghenion eiriolaeth yn fwy effeithiol.

Mae'r Awdurdodau Lleol nad oes ganddynt gontractau IPA yn eu lle wedi parhau i brynu eiriolaeth yn ôl y galw, neu wedi parhau contractau eiriolaeth oedd yn bodoli yn barod. Mae amrywiaeth sylweddol yn y cyllid sy'n cael ei ddyrannu ar hyn o bryd i ddarparu eiriolaeth. Arweiniodd y trefniadau contractio gwahanol hyn at anghyfartaledd yng ngallu dinasyddion i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth.

Ers Tachwedd 2016 mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent[12] (RPB) wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaeth a dinasyddion i gydgynhyrchu dull rhanbarthol o ymdrin ag eiriolaeth i oedolion. Mae'r RPB yn cynnwys pum Awdurdod Lleol (Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a Chynghrair Wirfoddol Torfaen (TVA).

Mae'r RPB a'r Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion wedi ymrwymo i ymdrin ag anghyfartaledd mynediad trwy gytuno i ddatblygu'r strategaeth gomisiynu ranbarthol hon ar gyfer IPA a ffurfiau ehangach o eiriolaeth yn 2019-24.

Yn unol â chyfarwyddebau polisi Llywodraeth Cymru, cytunodd y partneriaid hefyd i fabwysiadu dull cydgynhyrchiol o ddatblygu'r strategaeth hon. Fel y dangosir yn y graffig isod, sefydlwyd seilwaith unigryw i gefnogi comisiynu cyd-gynhyrchiol, yn cynnwys Grŵp Llywio Comisiynwyr Eiriolaeth, Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth, Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion a Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth. Mae'r Fforwm yn dwyn cynrychiolwyr o'r tri grŵp arall at ei gilydd i gydgynhyrchu cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth ar draws y rhanbarth.




Graffig 2: Strwythur Gwent ar gyfer cydgynhyrchu comisiynu eiriolaeth




© Stacey Harding 2019

## Gweithdai i randdeiliaid.

**Cynhaliwyd dau weithdy i randdeiliaid ym Mawrth 2018, yng NglynrEbwy (Swyddfa Gyffredinol) a Chasnewydd (Rodney Parade). Daeth cyfanswm o bron i 100 o bobl i'r gweithdai.**

**Wedi ei hwyluso ar y cyd gan Raglen Eiriolaeth Edau Aur[13] (GTAP) a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru[14], gofynnwyd i'r cynrychiolwyr ystyried "Beth yw'r prif faterion y bydd angen i Strategaeth Gomisiynu Eiriolaeth i Oedolion Gwent ymdrin â nhw?"**

**Dynododd Adroddiad Ymgysylltu Cryno[15] o'r digwyddiad bedair prif flaenoriaeth:**

- Cydgynhyrchu.
- Dylunio gwasanaeth, gan gynnwys cyfartaledd mynediad at eiriolaeth.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth, gan gynnwys rôl yr unigolyn priodol.
- Eiriolaeth yn y GIG.

Mae Penodau 6-9 yn ymdrin â phob un o'r materion hyn yn eu tro.

### Pobl ag Anableddau Dysgu

Cynhaliwyd trafodaethau gyda chynrychiolwyr grwpiau Pobl yn Gyntaf Gwent i bennu'r ffordd orau o gynnwys llais a barn pobl ag Anableddau Dysgu yn y strategaeth. Mae pobl ag anableddau dysgu yn aelodau o Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion ac fe'u cynrychiolir ar y Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth. Cynhaliwyd gweithdy ymgynghorol i bobl ag Anableddau Dysgu ym mis Tachwedd 2018.

### Grwpiau eraill

Yn ogystal â chyfartaledd mynediad yn ddaearyddol, rhaid i'r strategaeth ystyried anghenion eiriolaeth grwpiau amrywiol o randdeiliaid. Mae gan rai grwpiau ofynion penodol o ran eiriolaeth, e.e. mae ar ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar angen eiriolwr y Byddar (h.y. rhywun sy'n deall diwylliant y Byddar) i weithio gyda nhw yn ogystal ag arwyddwr/dehonglwr. Mae gan rai pobl â nam synhwyraidd anghenion arbenigol eraill, fel y mae pobl ar y sbectrwm awtistiaeth, pobl ag anaf ar yr ymennydd a chyflyrau niwrolegol eraill. Gall rhai unigolion â rhwystrau rhag cyfathrebu mwy cymhleth fod angen eiriolaeth arbenigol heb gyfarwyddyd. Gall gofalwyr hefyd fod angen eiriolaeth, a gall rhai Gofalwyr a rhieni pobl ag Anableddau Dysgu fod angen eiriolaeth arbenigol, e.e. mewn llysoedd.

Neges cryf o'r cam cyntaf o ymgysylltu oedd, tra bod gwasanaeth generig yn debygol o fod yn ddigonol i lawer o bobl sydd angen eiriolaeth, ni fyddai dull un math i bawb ar draul darpariaeth eiriolaeth arbenigol yn hyfyw.

### Gweithdai ymgynghori

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu'r strategaeth ddrafft ar 23 Tachwedd 2018 gyda dyddiad cau o 14 Ionawr 2019, a estynnwyd hyd 25 Ionawr 2019. Cynhaliwyd dau weithdy ymgynghori, y cyntaf i bobl ag Anableddau Dysgu (yn Siambr y Cyngor Cymuned, Cwmbrân) a'r ail i grwpiau eraill (Canolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Casnewydd). Daeth 21 o bobl i'r gweithdy cyntaf, gan gynnwys aelodau o'r pum grŵp Pobl yn Gyntaf lleol a'u gweithwyr cefnogi. Yn ystod y gweithdy adolygwyd rhestr ddrafft o'u prif bryderon ac yna fe'i diwygiwyd. Cynhwysir y rhestr derfynol yn Atodiad 3.

Gwahoddwyd aelodau Pobl yn Gyntaf a ddaeth i'r gweithdy cyntaf i gyflwyno eu pryderon ar ddechrau'r ail weithdy, y daeth dros 40 o bobl iddo. Roedd yr agenda yn cynnwys trafod rhai agweddau allweddol o ddylunio gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol fodelau ar gyfer un man cyswllt, a set o ddeilliannau eiriolaeth enghreifftiol. Casglwyd yr adborth a'r sylwadau o'r gweithdy, ynghyd â chrynodeb o ffurflenni gwerthuso'r gweithdy mewn Adroddiad Ymgynghoriad Cryno[16].

# 06 Blaenoriaeth 1

## Cydgynhyrchu.

**Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion craidd y Ddeddf ac mae'n ganolog i'r broses o ddatblygu strategaeth gomisiynu eiriolaeth oedolion Gwent. Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn cefnogi'r prosiect comisiynu ac mae wedi cynhyrchu rhai deunyddiau defnyddiol ar gydgynhyrchu[17]. Yn gryno, gall cydgynhyrchu gael ei ddeall fel galluogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyfartal, gan rannu grym a chyfrifoldeb am lunio penderfyniadau.**

Mae Cynllun Ardal Rhanbarthol Gwent 2018/19 yn cynnwys ymrwymiad i "fabwysiadu dull cydgynhyrchiol o gomisiynu eiriolaeth." Er nad yw cydgynhyrchu yn gysyniad newydd, Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth Gwent yw un o'r cynlluniau cyntaf o'i fath. Yr arwyddion cynnar yw, os bydd yn llwyddiannus, efallai bod potensial i drosglwyddo'r hyn a ddysgir i gomisiynu agweddau eraill ar wasanaethau cyhoeddus.

Nid yw cydgynhyrchu llwyddiannus, yr un fath ag arloesedd, yn debygol o ddigwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus heb strwythur cefnogol. Sefydlwyd pedwar o grwpiau rhanddeiliaid gennym i alluogi cydgynhyrchu ac i wneud iddo ddigwydd yn ymarferol (gweler graffig 2 ar ddiwedd Pennod 4).

Mae'r Fforwm Cydgynhyrchu yn dwyn at ei gilydd gynrychiolwyr o'r tri grŵp arall i roi cydgynhyrchu ar waith. Mae'n fforwm i drafod a negodi lle mae grym a chyfrifoldeb am lunio penderfyniadau yn cael eu rhannu yn gyfartal.

Mae hwn yn ddull arloesol o gydgynhyrchu wrth gomisiynu eiriolaeth. Oherwydd hyn mae llawer iawn o waith dysgu i bawb sy'n cymryd rhan.

Mae'r broses o "ddeialog cystadleuol"[18] yn cyd-fynd â chomisiynu cydgynhyrchiol a rhoddir ystyriaeth i'w ddefnyddio i gefnogi caffael gwasanaethau i gyflawni'r strategaeth gomisiynu. Mae'n broses sy'n galluogi comisiynwyr i sgwrsio â darparwyr a thynnu ar eu harbenigedd cyn penderfynu ar ffurf derfynol manyleb gwasanaeth, a thrwy hynny sicrhau bod amrywiaeth o atebion gwahanol yn cael eu hystyried cyn i'r tendr gychwyn yn 2020/21.

Mae arnom angen sicrhau bod comisiynu cydgynhyrchiol yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae gan ddinasyddion rôl hanfodol yn hyn o beth a byddwn yn parhau i gefnogi eu cyfraniad mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys trwy ddarparu hyfforddiant priodol.

### Casgliadau ac argymhellion

- Sefydlwyd sylfaen a strwythur cadarn ar gyfer cydgynhyrchu comisiynu eiriolaeth parhaus. Gelid datblygu hyn ymhellach trwy ddefnyddio dull "deialog gystadleuol" i gaffael.
- Mae model newydd o eiriolaeth ranbarthol yn bosibl ac mae angen ymrwymiad rhagweithiol i gydgynhyrchu a chyflawni hyn gan yr holl bartneriaid.
- Mae'r model newydd yma yn gofyn am ddull aeddfed a chydweithredol trwy drefniadau partneriaeth sydd wedi eu cryfhau, gan gynnwys parodrwydd i weithio gyda'n gilydd i fodloni anghenion unigol ac i dynnu ar adnoddau partneriaid fel sy'n briodol.
- Mae darparwyr yn allweddol i siapio a chynnal cynnig gweithredol i eiriolaeth oedolion yn y system Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd eu gwybodaeth a'u harbenigedd. Ystyrir felly bod rôl y Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth yn allweddol bwysig wrth symud ymlaen.
- Mae rôl dinasyddion mewn comisiynu cydgynhyrchiol hefyd yn allweddol bwysig. Dylai eu cyfraniad gael ei werthfawrogi yn fawr a'i gefnogi mewn ffyrdd ymarferol, gan gynnwys trwy hyfforddiant perthnasol.

# Blaenoriaeth 2

07

## Dylunio'r gwasanaeth: egwyddorion a deilliannau.

**Cytunodd y comisiynwyr o'r dechrau y dylai'r strategaeth gomisiynu gynnwys IPA statudol a ffurfiau eraill o eiriolaeth, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhan 10.**

**Ystyriwyd rhoi blaenoriaeth i IPA, ond roedd adborth rhanddeiliaid yn gyson yn galw am ddull cytbwys sy'n bodloni'r gofyn statudol hwn gan hefyd gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth ehangach, gan gynnwys hunan-eiriolaeth.**

Mae'r strategaeth gomisiynu hon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ffurfiau amrywiol lefel isel o eiriolaeth ar gael pan fydd eu hangen i roi cymorth i bobl â gofynion sy'n mynd tu hwnt i'r meini prawf ar gyfer cael mynediad at IPA statudol. Yn hyn o beth, gall ymyrraeth gynnar trwy eiriolaeth gyfrannu at atal yr angen am gymorth mwy cymhleth.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod eiriolaeth arbenigol ar gael, gan gynnwys eiriolaeth heb gyfarwyddyd[19] i bobl sydd, oherwydd nad ydynt yn gallu cyfathrebu eu barn a'u dymuniadau, yn methu rhoi cyfarwyddyd i eiriolwr. Mae'r ffurfiau arbenigol eraill ar eiriolaeth yn cynnwys Eiriolaeth i'r Byddar a'r Byddar a Dall, ac eiriolaeth i rieni plant sy'n ymwneud â chamau yn y Llys Gwarchod.

Roedd y Comisiynwyr yn ystyried ystod o ddewisiadau dylunio gwasanaeth cyn trafodaeth bellach yn ystod cyfarfod cyntaf y Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth, ac wedyn yn yr ail weithdy ymgynghori.

**Roedd yr ystyriaethau allweddol yn cynnwys:**

- Un darparwr neu ddarparwyr lluosog.
- Darpariaeth generig a/neu arbenigol.
- Darpariaeth fewnol neu annibynnol o ran yr un man cyswllt.

Ystyrid bod gwerth i agweddau ar bob un o'r gwahanol fodelau a gyflwynwyd. Yn arwyddocaol, awgrymwyd, pa bynnag fodel a fabwysiedir, bod sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei seilio ar yr egwyddorion cywir, a'i fod yn anelu at gyflawni'r deilliannau cywir, yn bwysicach.

Daeth y Comisiynwyr i'r casgliad, er y bydd y drafodaeth hon ar y modelau gwasanaeth yn werthfawr yn y cam nesaf o gaffael gwasanaethau i gyflawni nodau strategol, y dylai'r strategaeth gomisiynu ganolbwyntio ar ddynodi set briodol o egwyddorion gwasanaeth a deilliannau i eiriolaeth oedolion. Nodir dull o wneud hyn, gan dynnu ar gyhoeddiadau sy'n bodoli, wedi hen sefydlu ac yn cael cefnogaeth eang, isod ac yn Atodiad 2.

Maes o law mae'n debygol y bydd darparwyr IPA statudol, a ffurfiau eraill o eiriolaeth i oedolion, yn cael eu rheoleiddio dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA) Ar hyn o bryd mae'r gofynion a'r amserlen ar gyfer hyn yn aneglur. Mae darparwyr eiriolaeth i blant a phobl ifanc eisoes yn ddarostyngedig i RISCA.

### Egwyddorion comisiynu gwasanaethau eiriolaeth effeithiol

Bu'r pump Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gweithio gyda'i gilydd gyda phartneriaid i ddatblygu'r dull rhanbarthol hwn o ymdrin ag eiriolaeth i oedolion. Fodd bynnag, wrth gydnabod y gwahaniaethau demograffig, daearyddol a'r gwahaniaethau yn y dulliau o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob ardal, nid ydym yn bwriadu i'r pum Awdurdod Lleol i gyd gomisiynu eiriolaeth i oedolion yn union yr un ffordd. Yn hytrach, rydym wedi cytuno i fabwysiadu set o egwyddorion cyffredin i fod yn sail i gomisiynu eiriolaeth yn y dyfodol, wedi eu tynnu o God Ymarfer Rhan 10 a'r Nod Perfformiad Ansawdd ar gyfer Darparwyr Eiriolaeth.

# 07 Blaenoriaeth 2

Mae'r Cod Ymarfer Rhan 10 yn nodi y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu hadlewyrchu yn y trefniadau ar gyfer cynllunio, comisiynu, monitro ac adolygu gwasanaethau eiriolaeth yn eu hardal.

**Mae gwasanaethau eiriolaeth yn:**

- Cael eu harwain gan farn a dymuniadau'r unigolyn.
- Hyrwyddo hawliau ac anghenion unigolyn.
- Gweithio dros yr unigolyn yn unig.
- Cael cyhoeddusrwydd da, yn hygyrch a hawdd eu defnyddio.
- Rhoi cymorth priodol i unigolion gan ystyried eu hanghenion penodol.
- Cael eu rheoli yn dda ac yn cynnig gwerth am arian.
- Gwrando ar farn a syniadau unigolion a'u hadlewyrchu i wella'r gwasanaeth a ddarparwyd.
- Ymatebol ac yn rhoi help a chyngor yn gyflym pan gysylltir â nhw.
- Gweithredu ar lefel uchel o ran cyfrinachedd ac yn sicrhau bod unigolion ac asiantaethau partner yn ymwybodol o'u polisi cyfrinachedd.
- Meddu ar weithdrefn gwyno effeithiol a hawdd ei defnyddio, ac
- Â pholisïau clir i hyrwyddo materion cydraddoldeb a monitro gwasanaethau i sicrhau na fydd neb yn dioddef gwahaniaethu.

## Egwyddorion comisiynu gwasanaethau eiriolaeth effeithiol

Mae'r Nod Ansawdd Perfformiad Eiriolaeth, y Siarter ar gyfer Cynlluniau Eiriolaeth[20], a'r Cod Ymarfer i Eiriolwyr[21] gyda'i gilydd yn cynnig fframwaith cadarn i sicrhau bod darparwyr eiriolaeth annibynnol yn rhoi gwasanaeth proffesiynol o safon uchel i'w cleientiaid. Gall darparwyr ffurfiau eraill ar eiriolaeth dynnu ar yr egwyddorion a safonau hyn i arwain eu gwasanaethau.

Mae'r Nod Ansawdd Perfformiad Eiriolaeth (QPM) yn disgrifio set gynhwysfawr o safonau y gellir asesu darparwyr eiriolaeth annibynnol mewn cymhariaeth â hwy. Seilir y safonau ar yr egwyddorion a ddynodwyd yn y Siarter Eiriolaeth a'r Cod Ymarfer Eiriolaeth. Mae'n cael ei dderbyn yn eang y dylai darparwyr eiriolaeth a gomisiynwyd gan Awdurdodau Lleol fod â dyfarniad QPM neu fod yn gweithio tuag ato.

Mae'r Siarter Eiriolaeth yn set o egwyddorion y mae'n rhaid i amcanion a gweithgareddau darparwyr eiriolaeth annibynnol gyd-fynd â nhw. Mae'r Cod Ymarfer Eiriolaeth yn set o ganllawiau i eiriolwyr annibynnol, rheolwyr a chomisiynwyr, sy'n gysylltiedig ag egwyddorion y Siarter Eiriolaeth, sy'n amlinellu disgwyliadau a diben eiriolaeth annibynnol. Mae'n disgrifio beth ddylai cleientiaid yn ogystal â chomisiynwyr ei ddisgwyl o'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflawni.

Crynhoir yr egwyddorion a'r arferion a ddisgrifir yn y fframwaith ansawdd hwn yn Atodiad 2. Maent wedi cael eu mabwysiadu fel y safon ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol o ran eiriolaeth annibynnol statudol a heb fod yn statudol yn y rhanbarth.



# Blaenoriaeth 2

## Deilliannau'r gwasanaeth

Sefydlodd yr ymgynghoriad y dylai set o ddeilliannau enghreifftiol ar gyfer gwasanaethau IPA annibynnol a gynigiwyd gan Raglen Eiriolaeth yr Edau Aur gael eu hystyried fel rhai cynhwysfawr. Cynhwysir hwy Atodiad 2.

Datblygodd y Tîm Datblygu Cenedlaethol ar Gynhwysiant[22] (NDTi) hefyd Fframwaith a Phecyn Offer Deilliannau Eiriolaeth[23] cynhwysfawr. Mae hwn yn cynnig dull o ddangos cyflawni deilliannau eiriolaeth a gwerth am arian, a'i nod yw "sicrhau gwelliant parhaus a gwell deilliannau eiriolaeth i bobl."

Mae hwn yn ddull eithaf cymhleth o fesur cyflawni deilliannau, a gall cyfran ohono fod o gymorth wrth annog trafodaeth am welliant parhaus rhwng darparwyr a chomisiynwyr, ac wrth ddylunio dulliau mesur perfformiad addas ar gyfer dibenion monitro contractau. Ond, sefydlodd yr ymgynghoriad ffafraeth glir i ddull wedi ei symleiddio o fesur deilliannau perfformiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn osgoi "creu diwydiant o fonitro deilliannau."

### Cynigiwyd deilliant ychwanegol i ddarparwyr gan ymatebwr i'r ymgynghoriad:

- Tryloywder wrth ymdrin â chwynion trwy'r system, gan ddangos atebolrwydd a goruchwyliaeth.

Er bod y rhan fwyaf o'r egwyddorion hyn a rhai o'r deilliannau yn addas ar gyfer pob ffurf ar eiriolaeth, efallai na fydd yn bosibl cynhyrchu un fframwaith perfformiad sy'n ymdrin â'r amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth yn y rhanbarth. Er enghraifft, mae pobl ag Anableddau Dysgu wedi dynodi rhai materion allweddol i gael eu trin yn y strategaeth hon sydd yn peri pryder penodol iddynt (Atodiad 3). Mae gan ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain broblemau gwahanol[24], yn deillio o'u hanghenion diwylliannol ac ieithyddol penodol. Ymhlith grwpiau amrywiol eraill, mae gan Ofalwyr sydd angen eiriolaeth bryderon gwahanol.

Fe gynigiwyd, mewn sawl achos y gall fod yn ddigonol gofyn yn syml "A gawsoch chi'r gefnogaeth yr oedd arnoch ei hangen? Os na, beth allai fod wedi cael ei wneud yn well?"

## Casgliadau ac argymhellion

- Dylai'r strategaeth roi ymrwymiad clir a chytbwys i ddarparu IPA dan y Ddeddf a chefnogi datblygiad y sector eiriolaeth yn ehangach, gan gynnwys hunan-eiriolaeth.
- Pa bynnag fodel a ddewisir rhaid iddi fod yn seiliedig ar yr egwyddorion cywir a dylai'r rhain gael eu nodi yn y strategaeth i arwain caffael yn y dyfodol.
- Mae angen ymgysylltu pellach, gyda darparwyr yn arbennig i egluro'r cynnig gweithredol, datblygu dull cydweithredol, gwella cydraddoldeb mynediad, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth a chyflawni gwasanaeth cynhwysfawr a chynhwysol sy'n bodloni anghenion gwahanol unigolion o ran eiriolaeth.
- Dylai'r gwasanaeth rhanbarthol gael ei roi trwy gyfuniad o eiriolaeth generig ac arbenigol.
- Mae hyblygrwydd yn un o ofynion allweddol gwasanaethau'r dyfodol, i sicrhau bod unigolion yn gallu cael mynediad at y ffurf ar gymorth eiriolaeth sy'n iawn iddyn nhw.
- Rhaid rhoi digon o amser i alluogi i berthynas o ymddiriedaeth gael ei llunio.
- Gall un man cyswllt sy'n annibynnol oddi ar Wasanaethau Cymdeithasol a darparwyr eiriolaeth fod yn ddelfrydol, ond rhaid cydbwyso'r manteision â'r costau. [Sylwer: bydd y cwestiwn hwn yn cael ei brofi ymhellach gan brosiect treialu Mynediad at Eiriolaeth Gwent].
- Dylid cynhyrchu proses gyfeirio glir, syml ac agored - gan gynnwys gwirio nad yw'r problemau wedi ailddechrau - a'i dosbarthu yn eang.
- Dylai manylebau'r gwasanaeth ymgorffori'r egwyddorion a safonau sefydledig ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth o safon, fel y disgrifir yn Rhan 10 o'r Cod Ymarfer, y Nod Ansawdd Perfformiad, y Siarter Eiriolaeth i Gynlluniau Eiriolaeth, a'r Cod Ymarfer Eiriolaeth i Eiriolwyr.
- Ffafrir dull wedi ei symleiddio o fesur deilliannau yn bendant, ar hyd y llinellau o "A gawsoch y cymorth yr oedd arnoch ei angen, do neu naddo?"

# 08 Blaenoriaeth 3

## Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth.

**Mae ar ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol angen dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw eiriolaeth a sut y gall helpu. Bu pwysigrwydd allweddol cynyddu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o eiriolaeth yn neges gyson o ddechrau'r broses gomisiynu. Heb hyn, gall y nifer sy'n defnyddio'r eiriolaeth a gynigir i oedolion yn y system Gwasanaethau Cymdeithasol barhau yn dameidiog, mae'r cyfeiriadau yn debygol o barhau i fod yn isel, a bydd unigolion a allai gael budd o eiriolaeth yn parhau i golli cyfle i gael y ffurf arbenigol o gymorth y mae eiriolaeth yn ei gynnig. Mae hyn yn broblem gyffredinol ac nid yw'n unigryw i Went.**

Mae Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru[25] yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi am eiriolaeth dan y Ddeddf. Mae'r Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) hefyd yn rhoi gwybodaeth fwy manwl[26] am y gwahanol fathau o eiriolaeth a amlinellir ym mhennod 8 o God Ymarfer Rhan 10.

Wrth gydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth, mae Diogelu Gwent wedi cynhyrchu fideo o glipiau byr o bobl yn trafod eu profiadau o eiriolaeth[27]. Cynigiodd Diogelu Gwent hefyd gyfres o weithdai codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth hanner diwrnod i weithwyr proffesiynol o Ionawr hyd Fawrth 2019.

Cynhyrchodd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd fideo eiriolaeth[28], fel y mae GTAP, ynghyd â nifer o ddeunyddiau eraill a fwriadwyd i'r cyhoedd yn gyffredinol yn bennaf[29]. Gallai rhannu'r deunyddiau hyn yn eang fod yn rhan o ymgyrch godi ymwybyddiaeth wedi ei chydlynu trwy Went gyfan.

Bydd angen cyllid addas ar gyfer hyn. Roedd y prosiect treialu a amlinellwyd yn y cais i'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn cynnwys cyllideb ar gyfer y diben hwn.

Dylai gweithgor gydgynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys pob ffurf ar eiriolaeth, gan gynnwys hunan-eiriolaeth.

Mae datblygu rhwydwaith o ladmeryddion eiriolaeth fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth hefyd yn cael ei ystyried. Rhagwelir y gall y dull hwn wella mynediad at eiriolaeth i bobl sy'n cael eu hystyried yn "anodd eu cyrraedd", gan gynnwys cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), y gymuned fyddar a grwpiau eraill anabl ac ar y cyrion. Gall pecyn adnoddau Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru[30] i gefnogi eiriolwyr sy'n gweithio gydag amrywiaeth ddiwylliannol fod o gymorth yn hyn o beth.

Bydd yr ymgyrch hefyd yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o rôl yr Unigolyn Priodol, fel y disgrifir yn y Cod Ymarfer Rhan 10. Mae cydnabyddiaeth eang nad yw'r agwedd hon o'r Cod yn cael ei deall yn dda eto gan weithwyr proffesiynol Gofal Iechyd na'r rhai sy'n derbyn Gwasanaethau Cymdeithasol a'u Gofalwyr.

### Casgliadau ac argymhellion

- Dylid ystyried cynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu'r ddealltwriaeth o bob ffurf ar eiriolaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r cyhoedd fod yn 'ffactor llwyddiant allweddol'.
- Dylai'r prosiect treialu a ariennir gan yr ICF hwyluso ymgyrch wybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am eiriolaeth eang. Dylid datblygu cynllun gweithredu i alluogi hyn.
- Dylai'r ymgyrch ymwybyddiaeth hon gynnwys dinasyddion, comisiynwyr a darparwyr i ddangos cydgynhyrchu ar waith.
- Bydd symud ymlaen gyda rhwydwaith o ladmeryddion eiriolaeth gyda hyfforddiant priodol o gymorth, i gyrraedd y gymuned gyfan.




© Stacey Harding 2019

# 09 Blaenoriaeth 4

## Eiriolaeth yn y GIG.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevanoedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i gomisiynu gwasanaeth IPA statudol i bobl sydd wedi bod neu sydd mewn perygl o ddatblygu problemau Iechyd Meddwl a'u Gofalwyr. Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis wedi darparu'r gwasanaeth hwn ers 2016, ochr yn ochr â chontract IPA i grwpiau eraill a gomisiynwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae rôl IPA dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn debyg i, ond yn wahanol i Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) dan y Ddeddf Gallu Meddyliol 2005 ac Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.**

**Tanlinellwyd pwysigrwydd ymdrin ag eiriolaeth yn y GIGyng ngweithdy rhanddeiliaid Casnewydd ym Mawrth 2018. Yn ystod trafodaeth mewn grŵp bach ar 'Sut i gael eiriolaeth i ddiwylliant y GIG' nododd y cynrychiolwyr:**

- Er bod eglurder am rôl Awdurdodau Lleol yn y Cod Rhan 10, mae llawer llai o eglurder parthed Iechyd.
- Mae eiriolaeth yn dueddol o gael ei ddwyn i mewn fel cam olaf, a all fod yn rhy hwyr ac yn gostus.
- Mae eiriolaeth wedi sefydlu yn gymharol dda yn y GIG o ran: Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, ond dylid ystyried grwpiau cleifion eraill, gan gynnwys niwroamrywiaeth.
- Diffyg eglurdeb ble mae eiriolaeth yn eistedd yn y strwythur Bwrdd Iechyd - Profiad y Cleifion efallai fyddai fwyaf addas.
- Mae rhagnodi cymdeithasol yn allwedd bosibl i gael eiriolaeth mewn meddygfeydd.

Cytunodd y comisiynwyr y dylai ymdrin â phroblemau yn ymwneud ag eiriolaeth yn y GIG fod yn flaenoriaeth fawr i'r strategaeth gomisiynu, yn arbennig yng ngoleuni'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar integreiddio a gwasanaethau diwnïad ar draws Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 'Cymru iachach: Cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'[31].

**Yn ychwanegol, nododd Cylchlythyr Iechyd Cymru 'WHC (2016) 028'[32] a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru:**

'Mae'r cod ymarfer eiriolaeth yn nodi cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol o ran sicrhau cymorth eiriolaeth i alluogi oedolion a phlant i allu mynegi eu barn, dymuniadau a theimladau yng nghyswllt arfer dyletswyddau dan y Ddeddf. Mae'r Cod yn cydnabod y cyfrifoldeb a rennir am ddarparu cymorth eiriolaeth ar draws y GIG. Mae'r cod felly yn atgyfnerthu'r cyfleoedd i gydlynu trefniadau comisiynu trwy drefniadau partneriaeth ffurfiol ac anffurfiol dan Ran 9 o'r Ddeddf.'

Cytunodd y partneriaid yn dilyn hynny mai'r nod tymor hir yw datblygu un strategaeth gomisiynu unigol, integredig ar gyfer IPA a ffurfiau ehangach o eiriolaeth ar draws Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n cael ei gydnabod, i ryw raddau, bod cyd-gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn ddibynnol ar gynnydd o ran crynhoi cyllid i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Yn Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Isadran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ABUHB – sydd wedi dechrau ar brosiect trawsnewid system sylweddol - ei bwriad i gynnal proses ddeialog gystadleuol i brynu amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gan gynnwys eiriolaeth, o Ebrill 2020.

Rhwydweithiau Llesiant Integredig yw un o flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Rhagnodwyr Cymdeithasol a Chysylltwyr Cymunedol sydd yn ganolog i'r rhwydweithiau hyn rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael lle ar y map o asedau lleol ac y cyfeirir atynt yn briodol. Mae gan y Rhwydweithiau, a'r gwasanaethau eiriolaeth o'u mewn, hefyd rôl bwysig wrth gefnogi trawsnewid gofal cynradd.



Mae sialensiau sylweddol yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn y GIG, lle gallai'r angen am y rôl fod yn cael llai o dderbyniad. Mae rhai gweithwyr Iechyd proffesiynol yn rhoi rhyw ffurf ar eiriolaeth ar ran eu cleifion, ond yn yr un modd ag 'eiriolaeth ffurfiol' a roddir gan weithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol proffesiynol, ni ellir ystyried hyn yn eiriolaeth annibynnol.

Mae potensial i gynyddu proffil eiriolaeth mewn rhai adrannau o'r GIG lle mae eiriolaeth eisoes yn cael ei ddeall yn eithaf da, e.e. rhyddhau o'r ysbyty, gwasanaethau canser, gwasanaethau pobl hŷn, cartrefi nyrsio, gofal canolradd a gofal lliniarol. Gall Cynghrair Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Gwent hefyd gynnig llwybr i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth.

## Casgliadau ac argymhellion

- Bydd yn cymryd amser i newid diwylliant y GIG o ran eiriolaeth. Dylai'r ymgyrch ranbarthol i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth gychwyn ymdrin â hyn.
- Mae modelau arfer da o ran darparu eiriolaeth annibynnol mewn lleoliadau Iechyd y gellir eu hystyried wrth ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth GIG[33].
- Dylem anelu i gynnwys y GIG yn llawn wrth ddatblygu lladmeryddion eiriolaeth.

# 10 Mynediad at Eiriolaeth Gwent

**Yn Ionawr 2019, yn dilyn cyflwyno adroddiad ar yr ymarfer ymgynghori i Benaethiaid Gwasanaethau Oedolion, cyflwynwyd cais am arian i'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) i geisio cefnogaeth i brosiect treialu dwy flynedd.**

**Gan ddefnyddio adborth bron i 12 mis o ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid, a amlinellir ym mhennod 5, roedd y cais yn amlinellu tri phrif amcan:**

- Sefydlu un man cyswllt annibynnol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i oedolion i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod unigolion yn derbyn y ffurf fwyaf addas o eiriolaeth.
- Rhedeg ymgyrch amlwg i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- Cynyddu gallu'r sector eiriolaeth i reoli'r galw cynyddol.




Roedd y rhesymeg ar gyfer y prosiect treialu hefyd yn amlygu manteision posibl galluogi casglu data yn gyson ar draws y rhanbarth. Byddai hyn yn helpu i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth a mapio'r galw yn fwy cywir, a thrwy hynny ddarparu gwybodaeth bwysig i gomisiynwyr a fyddai'n helpu i siapio cynllunio gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol yn y dyfodol.

a Gofal Cymdeithasol proffesiynol. Fodd bynnag, bydd y darparwr eiriolaeth presennol yng Nghasnewydd, Dewis CIL, yn parhau i ddarparu'r man cyswllt lleol yno, gyda ProMo-Cymru yn ailgyfeirio unrhyw ymholiadau a dderbynnir o Gasnewydd yn ôl at Dewis CIL. Bydd ProMo-Cymru hefyd yn arwain yr ymgyrch godi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth.

Yn dilyn derbyn y cyllid y gofynnwyd amdano, gwnaed trefniadau gyda ProMo-Cymru[34], menter gymdeithasol o Gaerdydd, i roi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyda chyfeirio a dangos y ffordd at wasanaethau eiriolaeth i oedolion. Nid yw ProMo-Cymru yn rhoi eiriolaeth eu hunain ac felly maent yn annibynnol oddi wrth Awdurdodau Lleol a darparwyr eiriolaeth.

Dan yr enw Mynediad at Eiriolaeth Gwent, bydd y gwasanaeth yn cynnig un man cyswllt i Went gyfan sydd ar gael i ddinasyddion a gweithwyr Iechyd




Cychwynnodd y gwaith o sefydlu'r prosiect treialu yn Ebrill 2019. Cyfrannodd Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth y Dinasyddion, y Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth a'r Grŵp Llywio Comisiynwyr at ddylunio'r gwasanaeth, a bydd y Fforwm Cydgynhyrchu Eiriolaeth yn parhau i gael rôl yn monitro a gwerthuso gweithredu'r prosiect. Rhoddir rhai o'r deunyddiau hyrwyddo yn Atodiad 4.

Rhagwelir y bydd llinell ffôn Mynediad at Eiriolaeth Gwent (0808 801 0566) hefyd yn dod yn fyw yng Ngorffennaf 2019.

# Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud



## Crynodeb:

**Yn y Rhagair rydym wedi rhoi trosolwg o'n gweledigaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion yng Ngwent am y pum mlynedd nesaf. Mae cydgynhyrchu yn ganolog i'r weledigaeth yma.**

**Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gydgynhyrchu dull o gomisiynu eiriolaeth sy'n bodloni'r gofynion a nodir yng Nghod Ymarfer Rhan 10, a phan fydd yn bosibl yn mynd tu hwnt i hynny.**

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y gwahaniaethau demograffig, daearyddol ac o ran y dulliau o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob ardal. Er nad ydym yn bwriadu i'r pum Awdurdod Lleol i gyd gomisiynu eiriolaeth i oedolion yn union yr un ffordd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at eiriolaeth i holl breswylwyr Gwent. I gyflawni hyn, rydym wedi cytuno i fabwysiadu rhai egwyddorion cyffredin i fod yn sail i gomisiynu eiriolaeth yn y dyfodol. Er mwyn eglurder mae'r rhain wedi cael eu nodi yn Atodiad 2.

Ein nod cyffredinol yw adeiladu ar gryfderau a phroffesiynoldeb y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol, gan sicrhau bod gwasanaethau yn hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hir. Rydym yn rhagweld y bydd galw cynyddol o ganlyniad i'n hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth ymhlith y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Er mwyn bodloni'r galw hwn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffyrdd blaengar o gynyddu gallu'r sector.

Amlygwyd nifer o faterion penodol yn y Rhagair. Byddwn yn awr yn nodi pa gamau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â nhw.

### *Fe wnaethom ddweud:*

*Rydym yn gwerthfawrogi rôl grwpiau eiriolaeth cymheiriaid a dinasyddion sy'n cefnogi pobl ag Anableddau Dysgu i godi llais dros eu hawliau yn neilltuol.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*

*Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau trydydd sector sy'n rhoi cymorth i bobl ag Anableddau Dysgu. Mae Siarter Gweithio Gyda'n Gilydd Gwent[35] yn cynnig llwyfan sydd wedi ei ystyried yn ofalus i alluogi hyn. Byddwn yn annog sefydliadau sy'n cadarnhau'r Siarter i roi adroddiad am y camau y maent wedi eu cymryd i'w weithredu yn ymarferol. Byddwn yn adolygu'r peirianweithiau monitro a gwerthuso presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.*

### *Fe wnaethom ddweud:*

*Rydym hefyd yn cydnabod bod gan grwpiau eraill anghenion arbenigol o ran eiriolaeth, fel y defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig Byddar y gall eu pryderon ddeillio o rwystrau diwylliannol a ieithyddol.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*

*Rydym wedi rhoi ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb mynediad at eiriolaeth i'r holl oedolion, beth bynnag yw eu lleoliad, cyflwr Iechyd, nam neu nodweddion eraill. Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn dylunio manylebau gwasanaeth sydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu ffurfiau generig ac arbenigol o eiriolaeth. Byddwn yn monitro bylchau yn y ddarpariaeth trwy'r un man cyswllt fel rhan o'n prosiect treialu dwy flynedd ac yn ystyried y wybodaeth hon pan fyddwn yn comisiynu gwasanaethau newydd.*

### *Fe wnaethom ddweud:*

*Prif nod y strategaeth gomisiynu yw sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at y ffurfiau o eiriolaeth sydd fwyaf addas iddynt, bod yr holl wasanaethau eiriolaeth o safon uchel, a'u bod yn rhoi cymorth i gleientiaid yn effeithiol.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*

*Bwriadwyd i'r prosiect treialu Mynediad at Eiriolaeth Gwent ddynodi pa ffurf o gymorth sydd fwyaf addas i anghenion penodol pob unigolyn.*

# 11 Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud

*Bwriadwyd i'r prosiect treialu Mynediad at Eiriolaeth Gwent ddynodi pa ffurf o gymorth sydd fwyaf addas i anghenion penodol pob unigolyn. Trwy sefydlu un man cyswllt trwy sefydliad annibynnol nad yw'n darparu eiriolaeth byddwn yn casglu a oes gan y fodel hon unrhyw fanteision mewn cymhariaeth â'r model presennol, lle mae mynediad trwy'r darparwr eiriolaeth.*

*Rydym wedi mabwysiadu Fframwaith Perfformiad Ansawdd eiriolaeth cenedlaethol annibynnol fel y gofyn sylfaenol ar gyfer sicrhau bod eiriolaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu. Bydd y gofyn hwn yn cael ei gynnwys ym mhob manyleb gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth i oedolion yng Ngwent yn y dyfodol.*

*Er bod yr adborth o'n digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori yn dynodi ffafraeth i gadw mesur deilliannau yn syml, byddwn yn rhoi ystyriaeth i Fframwaith Deilliannau Eiriolaeth NDTi wrth ddylunio prosesau monitro a gwerthuso newydd. Bydd y rhain yn cael eu dylunio i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.*

## *Fe wnaethom ddweud:*

*Nod arall allweddol bwysig yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ehangach.*

## *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*

*Daeth codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn un o'n prif flaenoriaethau. Rydym yn credu, i eiriolaeth fod yn effeithiol i oedolion yng Ngwent, rhaid i fwy o bobl ddeall beth yw a sut i gael mynediad ato. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol yn ogystal â dinasyddion. Mae eiriolaeth ar ei ffurfiau gwahanol yn eithaf cymhleth i'w ddeall ac mae rhai camsyniadau amdano. Rydym am i bawb fod yn glir sut y gall eiriolaeth helpu mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac i ddeall yn neilltuol yr hawl i IPA dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).*

*Gan fod codi ymwybyddiaeth mor allweddol i ddatblygu eiriolaeth yn llwyddiannus yng Ngwent, gan gynnwys y gwasanaeth Iechyd, rydym wedi penderfynu defnyddio ymgyrch amlwg wedi ei chydlynu. Byddwn yn adeiladu ar waith yn y gorffennol gan y Bwrdd Diogelu ac yn cydgynhyrchu set o ddeunyddiau ar ffurfiau amrywiol. Bydd yr ymgyrch yn parhau trwy gydol y prosiect treialu dwy flynedd a byddwn yn gwneud y mwyaf o bobl cyfle i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i ymwybyddiaeth.*

*Sefydlir grŵp codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth i gydgynhyrchu cynllun gweithredu a sicrhau bod yr ymgyrch yn effeithiol. Bydd y gweithgor yn ystyried y potensial ar gyfer datblygu rhwydwaith o ladmeryddion eiriolaeth, yn cynnwys dinasyddion a gweithwyr proffesiynol, yn canolbwyntio yn benodol ar wella mynediad at eiriolaeth i bobl sy'n cael eu hystyried yn "anodd eu cyrraedd."*

*Rydym hefyd yn credu bod y rôl 'unigolyn priodol' yn hanfodol i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael defnyddio eu hawliau. Nid ydym yn credu bod y ffurf yma o eiriolaeth yn cael ei ddeall yn dda a bydd ein gwaith i godi ymwybyddiaeth yn rhanbarthol yn amlygu'r rôl. Byddwn yn gwrando ar farn pobl o ran pa wybodaeth benodol a hyfforddiant all fod yn angenrheidiol i alluogi unigolion priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol.*

## *Fe wnaethom ddweud:*

*Yn ystod yr ymgynghoriad daeth yn glir y byddai "cynnig gweithredol" o ran eiriolaeth i oedolion, yn debyg i'r un ar gyfer eiriolaeth plant a phobl ifanc, yn cael ei groesawu. Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddiffinio beth all hyn fod a byddwn yn cydgynhyrchu ateb gyda phartneriaid wrth i ni symud i'r cam caffael.*

## *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*

*Mae gan blant a phobl ifanc sy'n cael gofal neu yn rhan o gamau amddiffyn plant hawl cyfreithiol newydd i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth. Mae hyn yn golygu bod plant cymwys yn cael eu cyfeirio yn awtomatig at wasanaeth eiriolaeth a fydd yn rhoi gwybod iddynt beth yw eiriolaeth a sut y gall fod o help. Yna gallant ddewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth os dymunant.*

*Er nad oes gofyn statudol i gyflwyno cynnig gweithredol o ran eiriolaeth oedolion, mae'r ffaith bod hynny'n ddymunol wedi bod yn neges cyson trwy gydol ein hymgysylltu ac ymgynghori. Felly rydym wedi agor sgwrs gyda phartneriaid i gydgynhyrchu rhai meini prawf ar gyfer cynnig gweithredol. Am resymau ymarferol mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r nifer gymharol fychan o bobl a all fod yn gymwys ar gyfer IPA statudol. Ond rydym yn credu y gall cymryd y cam hwn gael dylanwad cadarnhaol ar y system gyfan, gan arwain o bosibl at gynnydd yn y cyfeiriadau.*

### *Fe wnaethom ddweud:*
*Rydym yn uchelgeisiol iawn am ddatblygu eiriolaeth yng Ngwent, er bod hyn yn creu rhai sialensiau sylweddol, gan gynnwys cyllid. Fel cam cyntaf rydym wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) ar gyfer cynllun treialu dwy flynedd. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu un pwynt cyswllt i gael gwasanaethau eiriolaeth yn y rhanbarth, rhedeg ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o eiriolaeth, a chynyddu gallu darparwyr yn y sector eiriolaeth.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*
*Bydd y cynllun treialu Mynediad at Eiriolaeth Gwent yn ganolog i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth oedolion yn 2019-21. Bydd yn helpu i roi eiriolaeth yn fwy cadarn ar y map i ddinasyddion a bydd hefyd yn helpu i wella statws eiriolaeth o safbwynt gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Byddwn yn sicrhau bod yr holl diamau ymarferwyr yn hollol ymwybodol o'r cynllun treialu a'n gweledigaeth ehangach ar gyfer datblygu eiriolaeth wrth symud ymlaen.*

*Bydd y cynllun treialu yn ein galluogi i werthuso effeithiolrwydd gwahanol fodelau ar gyfer rhoi un man cyswllt. Bydd hefyd yn helpu i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r galw am wahanol fathau o eiriolaeth. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei defnyddio i siapio caffael gwasanaethau eiriolaeth o 2021 ymlaen.*

### *Fe wnaethom ddweud:*
*Rydym yn cydnabod bod hwn yn wasanaeth pwysig a bod angen iddo fod ar gael yn gyfartal, pan a lle y bydd ei angen. Rhaid i hyn gael ei ddeall ar draws Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac mae'n neges allweddol i'n holl staff.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*
*Bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth yn cynnwys darparu gwybodaeth am eiriolaeth i weithwyr proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Byddwn yn rhoi sylw neilltuol i godi proffil eiriolaeth yn y GIG.*

### *Fe wnaethom ddweud:*
*Rydym yn rhoi gwerth mawr ar sicrhau bod dinasyddion Gwent yn gallu cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth priodol a byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr a phartneriaid eraill i gydgynhyrchu atebion sy'n gweithio i unigolion.*

### *Dyma'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:*
*Credwn fod gweithio yn gydgynhyrchiol ar eiriolaeth wedi ychwanegu agwedd newydd at rôl timau comisiynu. Mae'r seilwaith rydym wedi ei osod er mwyn galluogi cydgynhyrchu yn flaengar ac unigryw ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae wedi galluogi dinasyddion a darparwyr i gael llais llawer cryfach wrth ddylunio gwasanaeth, gan ar yr un pryd alluogi comisiynwyr i gael mynediad at wybodaeth ac arbenigedd dyfnach i fod yn sail i'w cynllunio.*

*Rydym wedi ymrwymo yn gadarn i ddatblygu cydgynhyrchu ymhellach fel dull creadigol o gomisiynu eiriolaeth. Byddwn felly yn parhau i fuddsoddi adnoddau mewn cydgynhyrchu trwy gydol y prosiect treialu ac i'r cyfnod caffael.*






© Stacey Harding 2019

# Cydnabyddiaeth

12

Ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion rydym yn dymuno cydnabod a mynegi ein gwerthfawrogiad o gyfraniadau amhrisiadwy nifer fawr o bobl sydd wedi helpu i gydgynhyrchu'r strategaeth gomisiynu hon.

Yn benodol ni fyddem wedi gallu "gwneud cydgynhyrchu" heb ymrwymiad a brwdfrydedd angerddol y cynrychiolwyr hynny o blith y dinasyddion sydd wedi bod mewn gweithdai ymgysylltu ac ymgynghori a chymryd rhan yn y Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion.

Rydym yn rhannu eu brwdfrydedd dros gydgynhyrchu ac yn cydnabod bod potensial mawr iddo i wella deilliannau ac ansawdd bywyd i ddinasyddion Gwent sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

**Diolch i chi!**

**Alyson Hoskins** (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)

**Phil Robson** (Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent)

# 13 Cyfeiriadau a dolenni

01 ] http://bit.ly/SSWbAct

02 ] http://bit.ly/Part10Code

03 ] http://bit.ly/ICFguide

04 ] http://www.gata.cymru

05 ] http://bit.ly/advocacyQPM

06 ] http://bit.ly/RISCA16

07 ] http://bit.ly/OPCmvh

08 ] http://bit.ly/GwentPNA

09 ] http://bit.ly/GwentAP

10 ] http://bit.ly/IntWBNet

11 ] https://www.dewiscil.org.uk

12 ] http://www.gwentrpb.wales

13 ] http://bit.ly/GTAPhome

14 ] https://copronet.wales

15 ] http://bit.ly/GwentEngage

16 ] http://bit.ly/GwentConsult

17 ] https://info.copronet.wales

18 ] http://bit.ly/COMPdi

19 ] http://bit.ly/NonIA

20 ] http://bit.ly/AdvChart

21 ] http://bit.ly/AdvCode

22 ] http://bit.ly/NatDevTi

23 ] http://bit.ly/AdvOutcomes

24 ] http://bit.ly/GTAPoct18
(gweler tt8-9)

25 ] http://bit.ly/SCWadvocacy

26 ] http://bit.ly/SCIEtypes

27 ] http://bit.ly/GwentSBvid

28 ] http://bit.ly/OPCvideo

29 ] http://bit.ly/GTAPaware

30 ] http://bit.ly/AdvRaceEqual

31 ] http://bit.ly/WGAHWales

32 ] http://bit.ly/WHC28

33 ] http://bit.ly/NHSadvocacy

34 ] https://www.promo.cymru

35 ] http://bit.ly/GwentC4WT

# ATODIAD A: Geirfa



**Rydym wedi ceisio gwneud y ddogfen hon mor hawdd ei darllen â phosibl ond efallai y byddai o help cyfeirio at y rhestr ganlynol o dermau a byrfoddau pan fydd angen.**

**Mae'r rhestr yn cynnwys rhai termau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ddogfen ei hun ond fe'u defnyddir yn aml yn ystod y prosesau comisiynu a chaffael.**

## TERMAU

### Allbynnau

Cynnyrch uniongyrchol gweithgareddau prosiect neu sefydliad, e.e. y gweithdai a gyflwynwyd, y cyhoeddiadau a gynhyrchwyd ac ati.

### Caffael

Y broses o brynu gwasanaethau gan ddarparwyr i fodloni anghenion a ddynodwyd gan y broses gomisiynu.

### Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)

Dogfen gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi'r gofynion a osodir ar Awdurdodau Lleol a byrddau Iechyd i ddarparu eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Comisiynu

Y broses o ddynodi angen a dylunio, cynllunio ac adolygu gwasanaethau sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a chynhyrchu'r deilliannau gorau i'r boblogaeth leol. Yn wahanol i gaffael (gweler isod).

### Consortiwm

Grŵp o sefydliadau trydydd sector sy'n cytuno i gydweithio er mwyn darparu gwasanaeth gyda'i gilydd.

### Contract ar y pryd

Trefniant hyblyg rhwng prynwr a darparwr sy'n galluogi gwasanaethau i gael eu prynu yn unigol, yn ôl yr angen ar y pryd (gweler contract bloc isod). Fel arfer mae hyn yn ddrutach i'r prynwr ac yn fwy heriol i'r darparwr gynllunio ar ei gyfer.

### Contract bloc

Cytundeb rhwymol sy'n gwarantu maint penodol o fusnes i ddarparwr gwasanaeth am gyfnod penodol o amser, gan alluogi'r prynwr i gael pris rhatach a'r darparwr i gynllunio yn fwy effeithiol (gweler hefyd contract ar y pryd uchod).

### Cydgynhyrchu

Proses sy'n galluogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth gyfartal, gan rannu grym a chyfrifoldeb am lunio penderfyniadau.

### Cytundeb fframwaith

Cytundeb rhwng prynwr a darparwr sy'n sefydlu'r telerau y gellir llunio contract oddi tanynt, neu eu 'dwyn i ben' pan fydd anghenion penodol yn codi.

### Deialog gystadleuol

Dull o gynnal y broses dendro sy'n caniatáu trafodaeth am y gwahanol ddewisiadau gyda'r darparwyr posibl cyn i ateb penodol gael ei ddewis.

### Deilliannau

Effeithiau, manteision neu newidiadau dros amser sy'n deillio o weithgareddau prosiect neu sefydliad, e.e. lefelau bodlonrwydd, gwell llesiant ac ati.

### Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

Ffurf ar eiriolaeth sy'n cael ei ddarparu gan eiriolwr wedi ei hyfforddi ac y telir iddo sy'n annibynnol o wasanaethau cyhoeddus a sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth. Gall fod naill ai yn statudol - ar gyfer dibenion yn ymwneud â gofal a chefnogaeth, dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014 neu anstatudol - ar gyfer dibenion eraill, e.e. tai, budd-daliadau lles ac ati. Rhaid i Awdurdodau Lleol drefnu darpariaeth o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol statudol i bobl mewn rhai amgylchiadau, a nodir yng Nghod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth).

### Gofalwr
Rhywun sy'n rhoi gofal a chymorth i aelod o'i deulu neu ffrind, yn ddi-dâl fel arfer.

### Gweithiwr Gofal
Rhywun sydd wedi ei hyfforddi a'i dalu i roi gofal a chefnogaeth proffesiynol.

### Manyleb gwasanaeth
Rhan o gontract sy'n rhoi disgrifiad clir, manwl gywir a llawn o anghenion y prynwr ac yn nodi'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr wrth gyflawni eu gwasanaethau.

### Prynwr
Yng nghyd-destun y ddogfen hon, y Bwrdd Iechyd neu Awdurdodau Lleol sy'n dymuno prynu gwasanaeth newydd i fodloni anghenion a ddynodwyd.

### Rhanddeiliad
Unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb gweithredol mewn mater penodol, e.e. dinasyddion, darparwyr, comisiynwyr ac ati.

### Unigolyn Priodol
Rôl eiriol anffurfiol a ddisgrifir ym mhennod 13 y Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth). Gall Unigolyn Priodol fod yn rhywun y mae'r unigolyn yn ei adnabod sydd ag anghenion gofal a chymorth - Gofalwr o bosibl, aelod o deulu, ffrind neu rywun arall yn eu rhwydwaith gymdeithasol ehangach - sydd â dealltwriaeth dda o'r system Gofal Cymdeithasol ac ar gael i helpu, cynrychioli a hwyluso ymwneud yr unigolyn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chefnogaeth, adolygu neu ddiogelu ac yn gallu gwneud hynny.

## BYRFODDAU

### ABUHB
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

### BSL
Iaith Arwyddion Prydain.

### GAVO
Cynghrair Sefydliadau Gwirfoddol Gwent.

### GTAP
Rhaglen Eiriolaeth yr Edau Aur.

### ICF
Cronfa Gofal Integredig.

### IPA
Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

### NDTi
Tîm Datblygu Cenedlaethol dros Gynhwysiant.

### RISCA
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014.

### RPB
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

### SCIE
Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol.

### SCW
Gofal Cymdeithasol Cymru.

### TVA
Cynghrair Wirfoddol Torfaen.

## Egwyddorion a deilliannau eiriolaeth.

**Crynhoir yr egwyddorion a nodir yn y Nod Ansawdd Perfformiad Eiriolaeth fel a ganlyn:**

- **Annibyniaeth**
  Gadael i wasanaethau gael eu harwain gan y cleient ac yn atebol i'r cleient, a galluogi hunan-eiriolaeth pan yn bosibl.
- **Eglurder diben**
  Sicrhau bod pawb yn deall beth yw eiriolaeth, a beth nad yw.
- **Cyfrinachedd**
  Fel y sail ar gyfer sefydlu perthynas o ymddiriedaeth rhwng eiriolwyr a'u cleientiaid.
- **Diogelu**
  I sicrhau bod gan eiriolwyr ddigon o wybodaeth a phrofiad i ganfod problemau diogelu.
- **Grymuso a rhoi pobl yn gyntaf**
  Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn gweithio mewn ffordd sy'n annog annibyniaeth.
- **Cydraddoldeb, hygyrchedd ac amrywiaeth**
  Sy'n gofyn i wasanaethau eiriolaeth fod yn rhagweithiol wrth sicrhau mynediad rhwydd a chyfartal.
- **Atebolrwydd a chwynion**
  Cael prosesau clir, tryloyw a hygyrch yn eu lle, gan gynnwys cefnogaeth i achwynwyr, a sicrhau bod gweithredu ar adborth.
- **Cefnogi eiriolwyr**
  Trwy hyfforddiant a goruchwyliaeth digonol i sicrhau bod yr eiriolaeth a ddarperir o safon uchel.

### Deilliannau gwasanaeth i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Statudol

**Mae'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur wedi cynhyrchu set arfaethedig o ddeilliannau gwasanaeth enghreifftiol i gleientiaid gwasanaethau eiriolaeth. Y deilliannau yw bod pobl:**

- Yn cael gwybodaeth am y dewisiadau gofal a chymorth sydd ar gael iddynt, a gwell dealltwriaeth ohonynt, fel eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu trefniadau personol.
- Yn gallu dynodi eu deilliannau llesiant personol eu hunain yn well, yr hyn sy'n eu hatal rhag cyflawni'r deilliannau hynny a sut y gellid ymdrin â nhw.
- Yn gallu cymryd rhan lawnach ym mhrosesau Gwasanaethau Cymdeithasol ac â mwy o reolaeth drostynt a'u cynllun gofal a chymorth.
- Yn gallu cyfleu eu barn, dymuniadau a theimladau yn well, i weithwyr proffesiynol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth ac wedi gweithredu ar hynny.
- Yn gallu herio yn well a, phan fydd angen, cwyno am brosesau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu gael eu cynrychioli i wneud hynny.
- Fod â gwell dealltwriaeth o'u hawliau a sut i'w cynnal.
- Yn teimlo bod ganddynt fwy o wybodaeth, yn fwy diogel ac yn gallu diogelu eu hunain yn well pan fydd pryderon am ddiogelu.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu trin â mwy o urddas a pharch.
- Yn gallu cael mynediad at wybodaeth ar y ffurf y maent yn ei ddymuno yn well ac i gyfathrebu yn yr iaith o'u dewis.
- Yn teimlo eu bod wedi eu grymuso ac yn hyderus wrth ryngweithio â gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

**Dylai darparwyr IPA statudol anelu i gael cymaint â phosibl o'r deilliannau canlynol:**

- Mwy o amrywiaeth o gleientiaid yn cael mynediad at y gwasanaeth ac yn ei ddefnyddio.
- Bodlonrwydd cleientiaid ar ansawdd y cymorth a gawsant gan y gwasanaeth.
- Dysgu parhaus oddi wrth sylwadau, awgrymiadau a chwynion.
- Cyfleoedd i gleientiaid gymryd rhan yn llywodraethu'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau, ac mewn cydgynhyrchu datblygiadau yn y gwasanaeth.

# 14 ANNEX C:

## Pryderon allweddol pobl ag Anableddau Dysgu.

**01** ] Y cyllid ar gyfer hunan-eiriolaeth ac eiriolaeth cymheiriaid i gael ei ddiogelu.

**02** ] Gwerthfawrogi a chryfhau hunan-eiriolaeth ac eiriolaeth cymheiriaid yn neilltuol.

**03** ] Sicrhau bod pobl ag Anableddau Dysgu yn cael gwybodaeth lawn am rôl pob ffurf ar eiriolaeth, yn neilltuol Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol statudol ac anstatudol.

**04** ] Galluogi pobl ag Anableddau Dysgu i gael mynediad rhwydd at bob math o eiriolaeth.

**05** ] Sicrhau bod eiriolwyr yn cael digon o amser i lunio perthynas o ymddiriedaeth gyda phobl ag Anableddau Dysgu.

**06** ] Sicrhau cymaint o gysondeb ag sy'n bosibl pan fydd gan gleientiaid anghenion dilynol am eiriolaeth.

**07** ] Sicrhau bod gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ag ymwybyddiaeth dda a dealltwriaeth o'r gwahanol ffurfiau o eiriolaeth fel bod pobl ag Anableddau Dysgu a all fod angen eiriolaeth yn cael gwybodaeth lawn am sut y gall helpu a sut i gyrraedd ato.

**08** ] Sicrhau bod pobl ag Anableddau Dysgu a'r gweithwyr Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sy'n gweithio gyda nhw i gyd â dealltwriaeth dda o hawliau pobl anabl.

**09** ] Yr holl sefydliadau sy'n ymuno â Siarter Gweithio Gyda'n Gilydd Gwent i roi'r egwyddorion ar waith, gyda phrosesau monitro a gwerthuso y cytunwyd arnynt.

**10** ] Sicrhau bod y strategaeth eiriolaeth a'r holl daflenni gwybodaeth am y gwahanol ffurfiau o eiriolaeth a'r gwasanaethau sy'n eu darparu ar gael mewn fersiynau Hawdd eu Darllen.



## Taflen hyrwyddo Mynediad at Eiriolaeth Gwent.

Mynediad i Eiriolaeth Gwent

Gwent Access to Advocacy

**Un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor eiriolaeth**

**Your single point of contact for information and advice on advocacy**

FFONIWCH YN RHAD AC AM DDIM
**0808 801 0566**

CALL FREE
**0808 801 0566**

LLUN - GWENER,
**10yb - 3yp**

www.mieg.cymru

MONDAY - FRIDAY,
**10am - 3pm**

www.gata.cymru

> Roedd yr eiriolwr yn gwrando o ddifrif ac yn fy helpu i deimlo'n rhan yn yr hyn oedd yn digwydd. Roeddent yn deall y system a rhoddwyd hyder i mi i gymryd rhan a chodi llais, er na chefais bopeth yr oeddwn yn dymuno.

## Sut gall eiriolwr helpu?

### Mae eiriolwr yn rhywun fydd:

- yno yn arbennig i chi ac yn eich cefnogi
- yn eich helpu i ddarganfod a deall gwybodaeth
- yn eich helpu i ystyried eich opsiynau a gwneud penderfyniadau eich hun
- yn sicrhau bod gwrandawiad ac ystyriaeth i'ch barn, dymuniadau a theimladau
- yn siarad ar eich rhan pan fydd angen hynny

## A yw'r llinell gymorth eiriolaeth yn addas i mi?

### Ydy os ydych chi:

- yn 18+, yn byw yng Ngwent Fwyaf (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen) ac angen cymorth i siarad gyda gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cyhoeddus am eich anghenion gofal a chefnogaeth
- yn ofalwr 18+, yn byw yng Ngwent Fwyaf ac angen cymorth i siarad gyda gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cyhoeddus am anghenion gofal a chefnogaeth chi neu rywun rydych chi'n gofalu amdanynt
- yn berthynas, ffrind neu'n weithiwr proffesiynol sydd yn credu byddai person yn cael budd o eiriolaeth

Mae Mynediad i Eiriolaeth Gwent yn cael ei ddarparu gan fenter gymdeithasol ProMo-Cymru, rhif cwmni cofrestredig: 1816889 a rhif elusen: 1094652


## Beth sydd yn digwydd pan fyddaf yn cysylltu â'r llinell gymorth eiriolaeth?

Rydym yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyda chyfeiriadau at wasanaethau eiriolaeth i oedolion. Gan ein bod yn annibynnol o awdurdodau lleol, y GIG a darparwyr eiriolaeth, gallem sicrhau eich bod yn derbyn y fath o eiriolaeth sydd yn gywir i chi.

### Byddem yn:

- gofyn am ychydig o wybodaeth sylfaenol, gan gynnwys manylion cyswllt (yn unol â rheolau amddiffyn data)
- gofyn i chi ddisgrifio'ch sefyllfa yn gryno
- eich hysbysu am y gwahanol fathau o eiriolaeth
- trafod pa fath o eiriolaeth fydd orau i chi
- darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth sydd yn agored i chi a sut i gysylltu

www.mieg.cymru




© Stacey Harding 2019

